

Menter Iaith Sir y Fflint

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Nos Iau, Tachwedd 4ydd 2010
Corlan, Yr Wyddgrug.**

Presennol

Jill Blandford, Nia Wyn Jones, Dewi Davies, Iwan Jones, Gwennan Henstock, Darren Morris, Lisa Orhan, Dylan Davies, Carl Renshaw, Ieuan ap Sion, Awen Williams, Gwawr Cordiner, Ellie Pritchard, Huw Alun Roberts, Harri Bryn Jones

1. Croeso

Estynnodd y Cadeirydd, Harri Bryn Jones groeso i bawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Steve Marquis, Emma Manning, Nesta Davies, Keith Humphreys, Meinir Tomos-Jones, Les Barker, Sharon Barlow, Marian Antrobus, David Owen Jones, Hywel Edwards, Eirian Conlon, Diana Rivaz, Dafydd a Meri Griffiths, Iddon Edwards, Carys Gwyn, Gwenno Jones, Aled Lloyd Davies, Rhian Davies, Tony Kensall, Liz Williams, Bronwen Hughes.

3. Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2009

Cynigwyd fod y cofnodion yn gywir gan Huw Alun Roberts ac eiliwyd gan Gwawr Cordiner.

4. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

5. Derbyn Adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr

Cyflwynodd Gwawr Cordiner, Y Rheolwr ei adroddiad am y flwyddyn flaenorol. Eglurodd am newidiadau staffio a oedd wedi digwydd dros y flwyddyn, megis penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd yn ogystal â phenodi Awen Williams, y Swyddog Ieuenctid dros y Gymraeg. Diolchodd i'r staff am eu cymorth dros y flwyddyn ddiwethaf ac am eu creadigrwydd eu brwdfrydedd wrth fynd at i weithredu prosiectau a gweithgareddau yn y sir. Nododd ei gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r cymorth parhaol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a prif bartneriaid y Fenter a chydnabyddid pwysigrwydd o gydweithio mewn partneriaeth er mwyn gwireddu nodau ac amcanion y Fenter i hybu a datblygu'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Sir y Fflint.

a.) Gŵyl Ffilm Daniel Owen

Nododd fod copi DVD o'r holl ffilmiau ar gael i bawb a bod 70 o bobl ifanc Sir y Fflint wedi cael bod yn rhan o'r prosiect cyffrous yma.

b.) Gŵyl y Ffin

Dywedodd Gwawr bod y Fenter wedi ofni byddai gweithio tu allan i ardal yr Wyddgrug wedi bod yn anodd wrth geisio hybu'r sin roc a pop Gymraeg, ond mynegodd ei bod yn hapus iawn â llwyddiant Gŵyl Y Ffin yng Ngerddi'r Tŵr yn Nhreffynnon ym Mis Gorffennaf. Dywedodd bod cydweithrediad a chefnogaeth ein partneriaid yr Urdd a Chyngor Tref Treffynnon a Chyngorau Cymuned leol, wedi sicrhau diwrnod llwyddiannus wrth i'r Fenter fynd at i lwyfannu gŵyl a oedd yn hyrwyddo bandiau gorau Cymru.

c.) Prosiect Iaith a Threftadaeth - Rhaglen Datblygu Wledig

Cyflwynwyd ystadegau mewn perthynas â'r prosiect

Mae'r ffigyrau isod yn berthnasol i'r hen fframwaith (2008 - Hydref 2010) ac wedi cael ei dderbyn gan Gyngor Sir y Fflint. Cafodd targedau'r Fenter eu hadolygu gan Adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir y Fflint, ac o Dachwedd 2010 wnaeth y Fenter monitro'r allbynnau yn ôl y fframwaith newydd.

Mesur	Targed	Allbwn
WOA.323.8.1 Nifer o blant yn cymryd rhan yn y prosiect	90	1318
WOA.323.8.2 Nifer o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y prosiect	120	53
WOA.323.8.3 Nifer o ferched yn cymryd rhan yn y prosiect	75	140
WOA.323.8.5 Nifer o siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan yn y prosiect	120	1175
ECO.323.1.3 Nifer o brosiectau a chefnogwyd i uwchraddio'r dreftadaeth wledig	20	25

ch.) Canolfan Iaith a Threftadaeth – Technium Iaith Gymraeg yn yr Wyddgrug

Datganwyd fod y penseiri mewn trafodaethau gyda'r Adran Gynllunio ynglŷn â'r ddarpariaeth parcio ar y safle. Cynhelir trafodaethau hefyd gyda TOCH, perchnogion y safle, er mwyn cytuno pris ar ei gyfer, hyn yn seiliedig ar dderbyn caniatâd cynllunio llawn ar gyfer Canolfan aml bwrpas.

Gorffennodd wrth ddiolch i Bryn am ei holl waith fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn, a diolchodd hefyd i Ellie Pritchard, Swyddog Busnes y Fenter am ei holl waith dros y tair blynedd diwethaf ar ran Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Maelor, a dymunodd pob lwc iddi hi a'i gŵr John wrth iddynt gychwyn bywyd newydd yn Seland Newydd wedi'r Nadolig.

Doedd dim cwestiynau na sylwadau yn codi ynglŷn â'r adroddiad, a chafwyd ei dderbyn gan bawb oedd yn bresennol.

6. Derbynn y Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain, 2010

Cafwyd cyflwyniad am y cyfrifon gan Richard Roberts o gwmni Cyfrifwyr Hill a Roberts, Rhuthun. Nododd ei fod yn hapus iawn gyda rheolaeth ariannol y Fenter ar y gyllideb. Yr unig boendod meddwl oedd bod angen chwilio am ffynonellau nawdd yn barhaol, ond nodwyd ei fod yn hapus gydag ymdrechion y Fenter wrth ddod o hyd i ffyrdd o ariannu prosiectau.

Doedd dim cwestiynau na sylwadau yn codi ynglŷn â'r cyfrifon, ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol gan bawb oedd yn bresennol. Diolchodd Bryn i Richard am ei waith.

7. Ethol y Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cytunwyd i gyfethol y Cyfarwyddwyr canlynol: Harri Bryn Jones, Huw Alun Roberts, Nia Wyn Jones, Lisa Orhan, Gwenno Jones, Carl Renshaw, Gwenan Henstock, Bronwen Hughes, Dylan Davies a Nesta Davies. Nodwyd eu bod yn amrywiaeth eang o unigolion o led led y Sir a'u bod oll gyda arbenigedd a phrofiad gwahanol a fydd yn gaffael i'r Fenter. Roedd angen uchafswm o 10 o bobl ar y bwrdd Cyfarwyddwyr, a daeth 10 enw i law.

8. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall

9. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

17eg mis Tachwedd 2011, Corlan, Yr Wyddgrug.

Diolchodd Bryn i bawb eto am eu cefnogaeth cyn cyflwyno Dewi Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a anerchodd y gynulleidfa am y gwaith o hyrwyddo diwylliant Gymraeg yn y maes Twristiaeth yng Ngogledd Cymru.